Y Polisi ynghylch Diogelu Data

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Diogelu Data

Mae ar Gyngor Sir Caerfyrddin angen casglu a defnyddio rhai mathau o wybodaeth am bobl y mae'n ymdrin â hwy er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl hyn yn cynnwys trigolion y Sir, y staff, yr aelodau etholedig, cyflenwyr nwyddau, ac eraill. Mae'n rhaid i'r wybodaeth bersonol hon gael ei phrosesu mewn modd priodol, boed ar bapur, gan gyfrifiadur, neu ar ffurf arall, ac mae camau diogelwch yn Neddf Diogelu Data 1998 er mwyn sicrhau bod hynny yn digwydd. O dan y Ddeddf honno, diffinnir prosesu fel casglu, cadw neu ddefnyddio gwybodaeth, gan gynnwys datgelu gwybodaeth.

Felly mae gofalu bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol mewn modd cyfreithlon a chywir yn bwysig dros ben o ran darparu ein gwasanaethau ac o ran cynnal hyder yn y berthynas rhyngom a'r sawl yr ydym yn ymwneud â hwy. Er mwyn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol mewn modd cyfreithlon a chywir, mae'r awdurdod wedi cymeradwyo'r Egwyddorion Diogelu Data, fel y'u nodwyd yn y Ddeddf Diogelu Data, ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny.

Yn benodol, mae'r Egwyddorion Diogelu Data yn mynnu'r canlynol:

1. Mae'n rhaid i ddata personol gael ei brosesu mewn modd teg a chyfreithlon, ac, yn neilltuol, rhaid peidio â phrosesu data personol oni chydymffurfir ag amodau penodol.

2. Mae'n rhaid i ddata personol gael ei gofnodi ar gyfer un neu ragor o ddibenion penodedig a chyfreithlon yn unig, ac mae'n rhaid sicrhau nad yw'n cael ei brosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sydd yn anghyson â'r diben neu'r dibenion hynny.

3. Mae'n rhaid i ddata personol fod yn ddigonol ac yn berthnasol a heb fod yn ormodol at y diben neu'r dibenion y mae'n cael ei brosesu.

4. Mae'n rhaid i ddata personol fod yn fanwl gywir, a, lle bo'r angen, mae'n rhaid ei gadw wedi ei ddiweddaru.

5. Mae'n rhaid peidio â chadw data personol at unrhyw ddiben neu ddibenion am fwy o amser nag sydd yn angenrheidiol ar gyfer y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

6. Mae'n rhaid i ddata personol gael ei brosesu yn unol â hawliau gwrthrychau data o dan y Ddeddf.

7. Mae'n rhaid cymryd camau technegol a chyfundrefnol priodol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu mewn modd anghyfreithlon, ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol yn ddamweiniol.

8. Mae'n rhaid peidio â throsglwyddo data personol i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd onid yw'r wlad neu'r diriogaeth honno yn sicrhau bod hawliau a rhyddid gwrthrychau data yn cael eu diogelu yn ddigonol o ran prosesu data personol.

Felly bydd Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy ddulliau goruch wylio priodol, drwy weithredu'n unol â'r meini prawf, a thrwy gymryd camau rheoli llym:

- yn cydymffurfio'n llwyr â'r amodau ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth mewn modd teg;
- yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â phennu'r dibenion o ran defnyddio gwybodaeth, a sicrhau bod y manylion amdanom ar y Gofrestr Gyhoeddus o Reolwyr Data yn cynnwys y dibenion hynny;
- dim ond yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth berthnasol i'r graddau y mae'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion gweithredol neu i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol;
- yn sicrhau pan gesglir gwybodaeth, a hynny drwy ddefnyddio ffurflenni neu ddulliau eraill, fod cyngor penodol yn cael ei roi ynghylch diben casglu'r wybodaeth ac ynghylch y modd y bydd yn cael ei defnyddio;
- yn sicrhau yr ymatebir cyn pen 21 o ddiwrnodau i hysbysiad gan wrthrych data / gorchymyn llys yn gofyn i'r awdurdod roi'r gorau i brosesu data personol, neu beidio â dechrau gwneud hynny.
- yn sicrhau y cydymffurfir â chais gan unigolyn am i'r awdurdod roi'r gorau i brosesu data at ddiben penodol, peidio â dechrau gwneud hynny, neu atal gwneud hynny.
- yn sicrhau bod y wybodaeth a ddefnyddir yn fanwl ac yn gywir, a bod unrhyw wybodaeth a gedwir yn ffeithiol berthnasol i'r maes gwaith dan sylw ac nad yw'n cynnwys unrhyw sylwadau enllibus na difrïol am unigolyn;
- yn sicrhau na chedwir gwybodaeth bersonol am fwy o amser nag sydd yn angenrheidiol at ddibenion defnyddiol;
- yn defnyddio gweithdrefnau gwirio llym er mwyn penderfynu am ba hyd y cedwir gwybodaeth, ac yn sicrhau bod data personol yn cael ei ddinistrio cyn gynted ag y mae'r cyfnod cadw priodol wedi mynd i ben;
- yn sicrhau bod unigolion y cedwir gwybodaeth amdanynt yn gallu manteisio yn llawn ar eu hawli au o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - ▷ hawl i gael gwybod bod prosesu yn digwydd ac at ba ddiben;
    - ▷ hawl unigolion i gael mynediad at wybodaeth bersonol amdanynt
    - ▷ hawl i atal prosesu dan rai amgylchiadau penodol, a,
    - ▷ hawl i gywiro, atal defnyddio, neu ddileu gwybodaeth yr ystyrir ei bod yn wybodaeth anghywir;

- yn cymryd camau technegol a chyfundrefnol priodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol ac i sicrhau taw dim ond y swyddogion hynny y mae angen y wybodaeth arnynt sydd yn gallu ei chael;
- yn sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo dramor heb gymryd camau diogelu addas.

Yn ogystal bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau:

- bod gan rywun yn yr awdurdod gyfrifoldeb penodol dros Ddiogelu Data;
- bod pawb sydd yn rheoli ac yn trin gwybodaeth bersonol yn deall bod ganddynt gyfrifoldeb, drwy eu cytundeb, i gydymffurfio â'r arferion da canlynol o ran diogelu data;
- bod pawb sydd yn rheoli ac yn trin gwybodaeth yn cael hyfforddiant priodol i wneud hynny:
- bod pawb sydd yn rheoli ac yn trin gwybodaeth bersonol yn cael eu goruchwylio mewn modd priodol;
- bod unrhyw un sydd ag ymholiadau ynghylch sut mae trin gwybodaeth bersonol, yn cael gwybod beth i'w wneud;
- bod ymholiadau ynghylch trin gwybodaeth bersonol yn cael sylw yn ddiymdroi ac mewn modd cwrtais;
- bod y dulliau o drin gwybodaeth bersonol yn cael eu disgrifio'n glir;
- ein bod yn bwrw ati'n rheolaidd i adolygu ac i archwilio'r modd y rheolir gwybodaeth bersonol;
- bod y dulliau o drin gwybodaeth bersonol yn cael eu hasesu a'u cloriannu yn rheolaidd;
- bod ein perfformiad o ran trin gwybodaeth bersonol yn cael ei asesu a'i gloriannu yn rheolaidd.

Sicrhau Ymdriniaeth Cyfartal

Fe weithredir y polisi hwn mewn modd cyson heb ystyriaeth i hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedl, iaith, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, newid rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu os yn rhiant neu pheidio.

Os fyddwch angen y ddogfen hwn mewn fformat arall, neu am wybodaeth pellach neu gyngor, cysylltwch â'r:

Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data
Adeilad 14
Parc Dewi Sant
Heol Ffynon Job
Caerfyrddin
SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246108
Ffacs: 01267 246134
E-bost: drg@sirgar.gov.uk

Atodiad

Diffiniad o'r termau yn y Ddeddf

Mae'r canlynol yn dermau cyffredin sydd yn cael eu defnyddio yn y Ddeddf Diogelu Data 1998:

Data
Ystyr data yw'r wybodaeth sydd yn cael ei chadw ar gyfrifiadur yn ogystal ag unrhyw ddogfennau papur sydd yn cael eu cadw gan awdurdodau cyhoeddus.

Prosesu
Ystyr prosesu yw cael, cofnodi, cadw, datgelu neu wneud unrhyw beth â'r data, gan gynnwys ei waredu.

Rheolwr Data
Sef y corff neu'r swyddog sydd yn gyfrifol am gadw a rheoli cynnwys data a'r modd y mae'n cael ei ddefnyddio. Mae'r Cyngor yn rheolwr data.

Gwybodaeth/data personol
Sef gwybodaeth am unigolyn byw y mae modd ei adnabod ar sail y wybodaeth honno, neu y gellid ei defnyddio gyda wybodaeth arall sydd gennym, neu sydd yn debygol o fod gennym fel modd i adnabod yr unigolyn.

Gwrthrych Data
Sef yr unigolyn y mae gwybodaeth bersonol amdano/amdani yn cael ei chadw gan reolwr data.

Cais gan Wrthrych Data
Sef yr hawl sydd gennych, fel gwrthrych data, i ofyn a oes gan Reolwr Data wybodaeth bersonol amdanoch chi, ac i ofyn am gael copi o'r wybodaeth honno.

Comisiynydd Gwybodaeth
Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn gorff annibynnol sydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r ddeddf, ac mae'n gallu erlyn y sawl sydd yn troseddu yn erbyn y Ddeddf. Hefyd mae'r SCG yn ymdrin â chwynion ac ymholiadau ynghylch Diogelu Data.

Hysbysu
Sef y broses lle mae rheolwr data yn rhoi gwybod i'r SCG am y mathau o wybodaeth bersonol sydd gan y corff ac at ba ddiben y prosesir y wybodaeth honno. Mae'r manylion hyn i'w gweld ar y Gofrestr o Reolwyr Data, sef cofrestr gyhoeddus y mae unrhyw un yn gallu cael golwg arni.

Data Sensitif
Mae'r Ddeddf yn diffinio data sensitif fel a ganlyn:

- Hil neu gefndir ethnig
- Barn wleidyddol
- Daliadau crefyddol neu ddaliadau tebyg
- Aelodaeth o Undeb Llafur
- Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
- Bywyd rhywiol
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol